Polisi a Gweithdrefn Camymddwyn Academaidd Athrofa Padarn Sant (APS)

ATHROFA PADARN SANT
ST PADARN'S INSTITUTE

Tabl Rheoli Dogfen

Teitl y ddogfen:	**Polisi a Gweithdrefn Camymddwyn Academaidd Athrofa Padarn Sant (APS)**
Awdur(on) (enw, teitl swydd a sefydliad):	Gareth Longden, Cofrestrydd
Rhif y fersiwn:	Fersiwn 2.2
Statws y ddogfen:	Cymeradwywyd
Dyddiad cymeradwyo:	27 Ionawr 2026
Cymeradwywyd gan:	Fwrdd Academaidd Athrofa Padarn Sant
Dyddiad rhoi mewn grym:	27 Ionawr 2026
Dyddiad yr adolygiad nesaf:	Mehefin 2028
Y fersiwn a ddisodlir:	2.1
Dogfennau cysylltiedig:	Gweler Adran 2

Hanes y ddogfen

Fersiwn	Dyddiad	Awdur	Nodiadau ar yr adolygiadau
1	24 May 2019	Gareth Longden, Cofrestrydd	• Drafft cyntaf
1.1	09 August 2021	Gareth Longden, Cofrestrydd	• Adolygwyd i gynnwys rhaglenni wedi ei ddilysu gan Common Awards
2	13 June 22	Gareth Longden, Cofrestrydd	• Diweddariadau bach i fformatio a theitlau

2.1	14 Gorffennaf 2025	Gareth Longden Cofrestrydd	• Dileu cyfeiriadau at Brifysgol Caerdydd • Ychwanegu manylion am ddefnydd deallusrwydd artiffisial
2.2	27 Ionawr 2026	Gareth Longden Cofrestrydd	• Ychwanegu deunydd ar ddefnydd deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol i raglenni a ddilysir gan Brifysgol Durham.

Polisi a Gweithdrefn Camymddwyn Academaidd Athrofa Padarn Sant (APS)

1. Cynnwys y Polisi

1. Cynnwys y Polisi
2. Fframwaith y Polisi
3. Cyflwyniad
4. Amgylchiadau Lliniarol
5. Diffiniadau
6. Osgoi Ymarfer Academaidd Gwael
7. Canfod Camymddwyn Academaidd
8. Gweithdrefn ar ganfod Achosion o Gamymddwyn Academaidd
9. Cosb am Gamymddwyn Academaidd
10. Gweithdrefn Apeliadau: Hawl i Apelio
11. Apêl i Gyrff Allanol: Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol
12. Cyfle Cyfartal
13. Diogelu Data
14. Cyfrifoldebau, Cymeradwyo Polisi ac Adolygu
15. Cyhoeddi'r Polisi
16. Atodiad 1 Ffurflen Adrodd Ymarfer Academaidd Gwael/Camymddwyn Academaidd

2. Fframwaith y Polisi

Datblygwyd y polisi hwn yn unol â'r rheoliadau, y polisïau a'r gweithdrefnau canlynol. Nid yw'r rhestr hon yn cynnwys popeth:

- Llawlyfrau Rhaglenni Athrofa Padarn Sant
- Polisi Cymorth Dysgu Athrofa Padarn Sant
- Polisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Athrofa Padarn Sant
- Polisi Diogelu Data Athrofa Padarn Sant
- Llawlyfr Ansawdd Academaidd Prifysgol Cymru, y Drindod Dewi Sant
- Llawlyfr Dysgu ac Addysgu Prifysgol Durham

3. Cyflwyniad

3.1 Bydd Athrofa Padarn Sant yn ystyried pob achos o Gamymddwyn Academaidd yn ddifrifol dros ben. Mae dysgwyr sy'n cael mantais amhriodol yn bygwth gwerthoedd a chredoau sy'n sail i waith academaidd ac yn diraddio uniondeb y dyfarniadau mae'r Athrofa yn eu cynnig. Mae camymddwyn academaidd, pa bryd bynnag y'i gwelir yn rhaglen astudio dysgwr, neu yn dilyn graddio, yn cael ei ymchwilio a'i drin yn briodol gan yr Athrofa. Os profir achos, gall y gosb beri bod y dysgwr yn cael ei amddifadu o'r cymhwyster neu'n cael ei wahardd o'r rhaglen.

3.2 Bydd Athrofa Padarn sant yn sicrhau bod dysgwyr, gan gynnwys y rhai hynny o ddiwylliannau eraill a thraddodiadau academaidd eraill yn ymwybodol o'r hyn sy'n ofynnol ac yn dderbyniol er mwyn ennill gradd. Bydd pob dysgwr yn cael gwybod y modd derbyniol a phriodol o gyfeirnodi (gan gynnwys dyfyniadau a chyfeirnodau) ac aralleirio barn eraill. Mae'r gofyniad bod y gwaith a gyflwynir yn waith y myfyriwr ei hun yn golygu y gall defnydd amhriodol o ddeallusrwydd artiffisial cynhyrchiol wrth gynhyrchu gwaith a asesir, olygu ei fod yn weithred o gamymddwyn academaidd. Dylai pob dysgwr sicrhau eu bod nhw yn gyfarwydd â'r polisi a'r canllawiau ar ddefnydd deallusrwydd artiffisial. Am wybodaeth

bellach dylech ddarllen yr adrannau perthnasol yn y ddogfen hon.

3.3 Mae Arweinwyr y Rhaglenni'n sicrhau bod gweithdrefnau ar gyfer ymdrin â chamymddwyn yn cael eu gweithredu'n gyson ar draws y ddarpariaeth a ddilysir.

4. Amgylchiadau Lliniarol

Ni all problemau personol, meddygol neu deuluol esgusodi camymddwyn academaidd.

5. Diffiniadau

5.1 Ystyr uniondeb academaidd yw gweithredu'n onest i gyflawni'r gofynion a bennir ar gyfer gwaith academaidd trwy gydnabod a phriodoli ffynonellau a thrwy beidio â dibynnu ar ddulliau anonest o ennill mantais amhriodol. Fel mater o gwrs, disgwylir i ddysgwyr ym Mhadarn Sant weithredu'n onest yn unol â'r Cod Ymddygiad mewn perthynas â'r gwaith maen nhw'n ei gyflwyno i'w asesu.

5.2 Ystyr camymddwyn academaidd ydy unrhyw weithgaredd amhriodol neu ymddygiad amhriodol gan ddysgwr, pun ai'n bwrpasol ai beidio, a fyddai'n rhoi mantais na chaniateir mewn asesiad ffurfiannol. Gall camymddwyn academaidd gynnwys llên-ladrata, twyllo, cydgynllwynio, twyllo contract, prawf-ddarllen amhriodol, defnyddio gwasanaethau cyfieithu, dynwared a hwyluso.

5.3 Mae ymarfer academaidd gwael yn cynnwys gwallau wrth gyflwyno gwaith cyfeirio a dyfynnu deunydd. Er enghraifft, os yw dyfyniad wedi'i nodi ond bod y ffynhonnell anghywir wedi'i nodi, lle mae aseiniad yn defnyddio 'dyfyniad o fewn dyfyniad' mewn modd camarweiniol, neu pan fo dyfyniad yn anghywir.

5.4 Llên-ladrad yw cyflwyno gwaith neu syniadau rhywun arall yn cynnwys gwaith

dysgwr arall, fel eich gwaith chi eich hun.

Dyma enghreifftiau o lên-ladrad:

- Copïo gwaith rhywun arall gair am air heb gydnabod hynny.
- Aralleirio gwaith rhywun arall trwy ddim ond newid ychydig eiriau neu newid trefn y cyflwyniad, heb gydnabyddiaeth.
- Dyfynnu ymadroddion o waith rhywun arall heb gydnabyddiaeth.
- Cyflwyno syniadau rhywun arall yn fwriadol fel eich rhai chi eich hun.
- Hefyd, gall copïo neu aralleiriad agos gyda chydnabyddiaeth achlysurol o ffynhonnell gael ei ystyried yn llên-ladrad os yw absenoldeb y dyfynodau yn awgrymu mai geiriad y dysgwr ei hun yw'r gwaith.
- Copïo data heb gydnabyddiaeth briodol. Defnyddio testun heb gydnabyddiaeth sydd wedi'i lawr lwytho o'r rhyngrwyd.
- Copïo atebion o wefannau rhwydweithio cymdeithasol, benthyg ystadegau neu ffeithiau a gasglwyd oddi wrth berson arall neu ffynhonnell arall.
- Copïo neu lawr lwytho ffigurau, ffotograffau, darluniau neu ddiagramau heb gydnabod y ffynonellau.
- Copïo o nodiadau neu draethodau cyd-ddysgwr.
- Ailgylchu traethodau/aseiniadau/deunydd ar gyfer asesiadau o waith blaenorol a gyflwynwyd gan y dysgwr (hunan lên-ladrad). Gan ddibynnu ar ffynhonnell y gwaith a ailddefnyddiwyd heb gyfeiriadau, gellir ystyried hynny'n ymarfer academaidd gwael neu'n llên-ladrad.
- Defnyddio deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol i gynhyrchu deunydd i'w gyflwyno lle na ganiateir. Gellir dod o hyd i fwy o fanylion ar ddefnydd deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol i fyfyrwyr wedi eu cofrestru ar raglenni a ddilysir gan Brifysgol Durham yn ei **polisi a chanllawiau deallusrwydd artiffisial .**

5.5 Ystyr twyllo ydy creu data ffug neu ymddygiad anonest.

Mae enghreifftiau yn cynnwys ond ddim yn gyfyngedig i:

- Dyfeisio Data ar gyfer pwrpasau ymchwil
- Cyfathrebu gyda, neu gopïo gan, unrhyw ymgeisydd arall yn ystod arholiad (heblaw ei fod wedi ei ganiatáu yn glir gan reolau rubric yr arholiad penodol.)
- Gwneud defnydd o ddeunyddiau ysgrifenedig neu wedi eu hargraffu yn yr ystafell arholiad (heblaw ei fod wedi ei ganiatáu gan rubric yr arholiad penodol) neu dderbyn copi o bapur arholiad wedi ei gau o flaen dyddiad ac amser ei rhyddhau. (fe adnabyddir papurau arholiad sydd yn cael eu rhoi i ddysgwyr o flaen llaw fel rhai 'agored').

5.6 Cyd-gynllwynio yw dysgwyr neu unigolion eraill yn cydweithredu heb ganiatâd sydd heb ei briodoli i gyflawni darn o waith a asesir. Er enghraifft, dau ddysgwr neu fwy yn cynhyrchu darn o waith gyda'i gilydd gyda'r bwriad y gall o leiaf un ohonynt ei gyflwyno fel ei waith ei hun. Anogir dysgwyr i gydweithredu ag eraill wrth astudio, ond nid yw gwaith a gyflwynir sydd wedi'i gopïo oddi wrth neu wedi'i gyd-ysgrifennu ag eraill yn dderbyniol, oni bai bod angen cydweithredu yn yr aseiniad penodol hwn. Bydd rhaglenni yn sicrhau bod gwaith modiwlau sy'n galw am waith grŵp yn rhoi cyfarwyddyd clir i ddysgwyr ynghylch y cydweithredu rhwng dysgwyr yn eu haseiniadau sy'n dderbyniol neu beidio, waeth a yw'r aseiniadau hynny yn gynnyrch grŵp neu'n gynnyrch unigolion o fewn y grŵp.

5.7 Twyll contract yw pan fo dysgwr yn trefnu i rywun arall wneud asesiad ar ei ran ac yna'n ei gyflwyno fel ei waith ei hun. Mae hyn yn anonestrwydd deallusol. Os yw rhywun yn trosglwyddo ei aseiniadau i eraill gan wybod y bydd dysgwr arall yn llên-ladrata'r aseiniad, gall hyn hefyd arwain at gosb. Mae talu am waith o ffynonellau eraill a'i gyflwyno fel eich gwaith eich hun hefyd yn dwyll contract. Gall hyn gynnwys prynu asesiad oddi wrth sefydliad neu unigolyn. Mae dysgwyr sy'n darparu neu'n gwerthu asesiad hefyd yr un mor euog o Gamymddwyn Academaidd a bydd cyhuddiadau o ddarparu asesiadau i'r diben hwn yn cael eu hymchwilio ac os deuir o hyd i dystiolaeth bydd dysgwyr yn cael eu cosbi o dan y gweithdrefnau hyn.

5.8 Caniateir prawf-ddarllen ac eithrio pan fo gwaith yn cael ei adolygu, a bod y cynnwys neu'r ddadl i bob diben yn cael ei newid gan drydydd parti fel nad yw bellach yn adlewyrchu gwaith y dysgwr ei hun. Rhoddir canllawiau pellach gan y brifysgol su'n dilysu, ac fe ddylid gwirio nhw cyn i brawf-ddarllen ddigwydd. Am

fwy o wybodaeth cysylltwch â'ch Tiwtor Personol neu'r Gofrestrfa.

5.9 Ni chaniateir defnyddio Gwasanaethau Cyfieithu i gyfieithu gwaith o iaith gyntaf y dysgwr i'r Saesneg .

5.10 Dynwarediad ydy cyflwyno gwaith ar ran rhywun arall, fel petai gwaith yr unigolyn arall ydyw.

5.11 Mae hwyluso yn digwydd pan fo dysgwr yn rhoi copïau o'i **gwaith ei hunain** megis traethodau, er mwyn hwyluso llên-ladrad dysgwr yn **bwrpasol,** er enghraifft drwy adael iddyn nhw i edrych fel **y gallant gopïo.**

5.12 Mae diffyg nodi cydnabyddiaeth o ddefnydd deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol ar eich gwaith ac/ neu fethu dilyn canllawiau penodol a rhoddwyd i chi. I weld esboniad mwy manwl o ddefnydd deallusrwydd artifisial cynhyrchiol sydd gyfystyr â chamymddygiad academaidd i fyfyrwyr wedi eu cofrestru ar raglenni a ddilysir gan Brifysgol Durham ewch i'w **polisi a chanllawiau deallusrwydd artiffisial nhw** .

6. Osgoi Ymarfer Academaidd Gwael

6.1 Gall camymddwyn academaidd ddigwydd yn fwriadol, yn anfwriadol neu oherwydd diffyg profiad. Fodd bynnag, cyfrifoldeb y dysgwr yw deall ystyr a diffiniad camymddwyn academaidd a'r amryfal enghreifftiau o Gamymddwyn Academaidd a gofyn am gyngor os oes angen.

6.2 Mae'r Athrofa'n deall bod gan ddiwylliannau gwahanol agweddau gwahanol o ran yr hyn yw ymddygiad academaidd annerbyniol, fodd bynnag mae pob dysgwr yn cael yr un cyfarwyddyd ac arweiniad ar osgoi cyflawni Camymddygiad Academaidd ac felly mae pob dysgwr yn cael ei farnu yn ôl yr un safonau, fel yr amlinellir yn y polisi hwn.

6.3 Lle bo gan ddysgwr wahaniaeth dysgu cydnabyddedig, gellir defnyddio prawf ddarllenwr i sicrhau nad yw'r ystyr mae'n ei fwriadu yn cael ei gamddeall oherwydd ansawdd a safon ei ysgrifennu. Os caniateir hynny, gall prawf ddarllenwr nodi gwallau sillafu a gramadeg sylfaenol. Ni ddylid cywiro gwallau yn y cynnwys academaidd ac ni ddylid newid strwythur y darn gwaith. Gellir dod o hyd i wybodaeth bellach am rôl y prawf ddarllenydd yn y dogfennau terfynol a

ddarperir gan y brifysgol sy'n dilysu.

6.4 Dylai dysgwyr sydd â gwahaniaeth dysgu cydnabyddedig drafod ei anghenion o ran prawf ddarllen gyda'r Tiwtor sy'n gyfrifol am Gymorth Dysgu neu Arweinydd y Rhaglen.

6.5 Dylai dysgwyr ddefnyddio'r adnoddau sgiliau astudio, yn benodol y rhai sydd cyfeirio at gyfeirnodi yn gywir â Chamymddwyn Academaidd.

6.6 Mae'r awydd i lên-ladrata yn gallu codi o ddiffyg hunan hyder neu ddiffyg dealltwriaeth o amcanion yr asesiad a'r hyn sy'n ddisgwyliedig gan y dysgwr. Mae aseiniadau'n gyfrwng ar gyfer asesu perfformiad ac yn cyfrannu at y canlyniad cyffredinol. Fodd bynnag, maen nhw hefyd yn helpu dysgwyr i ddeall eu pwnc ac yn helpu i addysgu'r dysgwr. Pan fo dysgwyr yn ceisio defnyddio syniadau a thermau yn annibynnol, mae dysgwyr yn dysgu'n fwy trwyadl ac yn datblygu eu harddull ysgrifennu eu hun. Trwy gyflwyno gwaith nad yw yn waith maen nhw wedi'i gyflawni eu hunain, maen nhw'n amddifadu eu hunain o'r cyfle i fanteisio ar y strategaeth ddysgu werthfawr hon. Byddai copïo gwaith pobl eraill yn wrthgynhyrchiol i'r nod o ddeall y pwnc a llwyddiant gwirioneddol. Ni fydd y rhan fwyaf o ddysgwyr yn awyddus i gael agwedd mor negyddol at astudio ac nid yw Athrofa Padarn Sant yn barod i ddioddef ymarfer o'r fath.

7. Canfod Camymddwyn Academaidd

7.1 Mae Padarn Sant yn defnyddio meddalwedd i ddod o hyd i lên-ladrad (Turnitin) i'w helpu i ddarganfod achosion o Gamymddwyn Academaidd, yn benodol llên-ladrad.

7.2 Pan fo deunydd wedi'i ladrata yn cael ei gynnwys mewn aseiniad, mae'r tiwtor yn debygol o sylwi ar y gwahanol arddulliau ac weithiau'n gyfarwydd â'r ffynhonnell. Mae dyfynnu gwael hefyd yn hawdd ei ganfod.

7.3 Mae'r rhan fwyaf o achosion o lên-ladrad, pan ddeuir o hyd iddynt yn weddol hawdd i'w dangos trwy gynhyrchu copïau o'r deunydd gwreiddiol a argraffwyd neu o'r we.

8. Gweithdrefn ar ganfod Achosion o Gamymddwyn Academaidd

8.1 Os yw Tiwtor o'r farn neu'n amau bod achos o Gamymddwyn Academaidd wedi digwydd mewn perthynas â gwaith a gyflwynwyd fel darn o waith cwrs neu brosiect, neu unrhyw waith arall a gyflawnwyd dan amodau ac eithrio arholiad, byddan nhw'n rhoi gwybod i'r Cofrestrydd am yr achos cyn gynted â phosibl, gyda thystiolaeth ategol.

8.2 Bydd y Cofrestrydd yn adolygu'r mater gyda'r Arweinydd Rhaglen briodol i benderfynu a oes achos ***prima facie*** i'w ateb ac a ddylid ei drin fel achos o ymarfer academaidd gwael neu achos o gamymddwyn academaidd.

8.3 Os yw Arweinydd y Rhaglen yn credu bod ymarfer academaidd gwael wedi digwydd, bydd yn:

- Rhoi rhybudd anffurfiol i'r dysgwr,
- Yn rhoi cyfarwyddyd ar sut i osgoi gweithredu felly yn y dyfodol
- Cwblhau **Ffurflen adrodd ar Ymarfer Academaidd Gwael / Camymddwyn Academaidd** (Gweler Atodiad) gan gadw copi ar gyfer y dyfodol.

8.4 Nid yw ymarfer academaidd gwael yn gyfystyr â chamymddwyn academaidd. Fodd bynnag, gellir ystyried unrhyw drosedd ddilynol sy'n ymarfer academaidd gwael gan yr un dysgwr yn achos o gamymddwyn academaidd a chaiff ei drin yn unol â hynny.

8.5 Lle bo'r Arweinydd Rhaglen o'r farn bod achos o Gamymddwyn Academaidd, ac yn benodol llên-ladrad, bydd yn cwblhau ffurflen adrodd ar achos o Gamymddwyn Academaidd gan weithredu fel a ganlyn:

8.5.1 Yn achos dysgwyr sydd wedi'u cofrestru ym Mhrifysgol Cymru, y Drindod Dewi Sant (UWTSD):

- Rhoi gwybod i'r Swyddog Cyswllt Partner yn UWTSD a darparu copi o'r ffurflen adrodd am achos o Gamymddwyn Academaidd a chopi o'r aseiniad iddynt.
- Cadw copi o'r aseiniad a'r ffurflen adrodd a gwblhawyd yn ffeil y dysgwr.
- Gall Arweinydd y Rhaglen ymchwilio i unrhyw ddarnau gwaith blaenorol sydd eisoes wedi'u marcio a'u harchwilio. Os oes amheuaeth

bod llên-ladrad wedi digwydd mewn perthynas ag un neu fwy o'r darnau gwaith hyn, bydd Arweinydd y Rhaglen yn gweithredu fel y nodir uchod.

- Bydd y Swyddog Cyswllt Partner yn cyfeirio'r achos at Gydlynydd Ymarfer Annheg y Brifysgol a bydd yntau'n ystyried a oes achos prima facie i'w ateb. Os yw'r Cydlynydd Ymarfer Annheg yn ystyried y dylid cynnal ymchwiliad, bydd y weithdrefn a nodir ym Mhennod 13 (Achosion Myfyrwyr) o Lawlyfr Ansawdd Academaidd yn cael eu dilyn.

8.5.2 Yn achos dysgwyr a gofrestrwyd ar raglenni a ddilyswyd gan Common Awards (Prifysgol Durham)

- Os oes amheuaeth bod dysgwr wedi torri'r Polisi Camymddygiad Academaidd, yna dylai adroddiad yn nodi'r dystiolaeth gael ei drosglwyddo i Gadeirydd Fwrdd Arholi Athrofa Padarn Sant, (Rhaglenni M.A.) Bydd y Cadeirydd yn awdurdodi bod holl waith y dysgwr am y flwyddyn yn cael ei wirio, i weld os oes tystiolaeth arall o ymddygiad tebyg. Lle fo dau arholwr wedi eu hapwyntio i arholi darn o waith, dylai'r arholwyr ymgynghori ar y mater cyn cyflwyno adroddiad. Mewn sefyllfa lle bo un o'r arholwyr yn Gadeirydd, yna bydd Dirprwy Gadeirydd y Bwrdd Arholi yn cymryd ei le/lle.
- Os yw'r arholwr allanol yn amau fod y dysgwr wedi torri'r polisi dylent ymgynghori â'r arholwr (yr) mewnol. Dylai'r arholwr mewnol wedyn baratoi adroddiad rhagymadroddol yn nodi'r dystiolaeth, ac fe ddylai'r adroddiad age lei gyflwyno yn syth I Gadeirydd y Bwrdd Arholwyr.
- Os yw Cadeirydd Bwrdd yr arholwyr yn meddwl (neu'r person a enwebwyd ganddynt) bod adroddiad yr arholwr / arholwyr yn rhoi tystiolaeth fanwl ddigonol o dramgwydd, bydd is-banel I Fwrdd yr Arholwyr, wedi ei apwyntio gan y Cadeirydd (neu'r person a enwebwyd ganddynt), yn cael ei ffurfio. Bydd yr is-banel yn cynnwys y Cadeirydd (neu'r person a enwebwyd ganddynt) a dau aelod o'r Bwrdd (gan eithrio'r arholwyr wnaeth gyflwyno'r adroddiad) yn ystyried yr achos.
- Bydd gofyn bod y dysgwr / dysgwyr dan amheuaeth yn cwrdd â'r panel a'r arholwyr sy'na adrodd ar yr achos. Dylai'r dysgwr gael o leiaf **5**

diwrnod gwaith o rybudd o ddyddiad y cyfarfod, ac fe ddylid rhoi gwybod pwrpas y cyfarfod. Dylid rhoi'r cynnig iddynt i ddod ac aelod o staff i'r cyfarfod gyda nhw (er enghraifft Tiwtor Personol y dysgwr) Gall y dysgwr hefyd ddod ag unigolyn nad sy'n staff i'r cyfarfod yn gefnogaeth iddynt, ar ddisgresiwn Cadeirydd y panel.

- Os mai cydgynllwynio ydy'r honiad dylai'r ddau ddysgwr gael eu gweld yr un pryd, i alluogi nhw i glywed tystiolaeth y dysgwr arall yn ei erbyn / herbyn. Bydd pob dysgwr yn medru rhannu eu ple lliniaru mewn preifat cyn y panel, gyda'r amod y bydd y dysgwr arall yn cael y cyfle i ateb unrhyw gyfeiriad atyn nhw yn y datganiad lliniaru. Mewn achos honiad o lên-ladrata neu gydgynllwynio wedi dod i'r golwg ar ddiwedd y rhaglen gradd, mae'n bosib y bydd angen i gynnal cyfarfod heb rybudd o 5 diwrnod, ond bod y dysgwr yn cytuno yn ysgrifenedig i'r weithdrefn hon. Mae'n bosib bydd camau gweithredol yma'n angenrheidiol er mwyn rhoi'r cyfle i'r Bwrdd Arholwyr I ystyried yr achos heb achosi oedi gormodol i'r broses arferol o ystyried dyfarnu'r radd i'r dysgwr.
- Yn dilyn y cyfarfod bydd angen creu cofnod ysgrifenedig o'r cyfarfod yn syth. Bydd copi o'r adroddiad yn cael ei ddanfon yn electronig i'r tim Common Awards cyn gynted â phosib. Bydd y tim Common Awards yn trosglwyddo'r adroddiad i'r Swyddog Cyswllt perthnasol yn y Brifysgol.

9. Cosb am Gamymddwyn Academaidd

9.1 Bydd y gosb ar gyfer gamymddwyn academaidd a brofwyd, i ddysgwyr sydd wedi eu cofrestru gyda **Phrifysgol Y Drindod Dewi Sant** yn cael ei rhoi gan y Brifysgol yn unol â'i chosbau cyhoeddedig.

9.2 Bydd cosbau ar gyfer camymddwyn academaidd a brofwyd, i ddysgwyr wedi eu cofrestru ar raglenni a ddilyswyd gan **Common Awards (Prifysgol Durham)** yn cael ei benderfynu drwy ddefnyddio'r weithdrefn isod.

9.2.1 Ar ddiwedd y cyfarfod ymchwilio, rhaid i'r panel gan eithrio'r arholwr / arholwyr sydd yn adrodd ar yr achos, benderfynu ar ba mor helaeth yn feintiol ac ansoddol mae'r llên-ladrata neu'r cydgynllwynio honedig

9.2.2 Rhaid i'r penderfyniad cael ei gwneud ar

a. y dystiolaeth a gyflwynwyd ac ar

b. yr eglurhad rhoddwyd gan y dysgwr gan gynnwys ple lliniaru rhoddwyd. Yn seiliedig ar y penderfyniad hwn rhaid i'r panel gytuno ar y cam priodol nesaf.

9.2.3 Rhaid i argymhelliad y panel gael ei gyfathrebu i'r dysgwr, yn ysgrifenedig gan Gadeirydd y Bwrdd Arholwyr (neu'r person a enwebwyd ganddynt).

9.2.4 Gall argymhelliad y panel fod fel y canlynol:

- Bod dim camau pellach yn cael eu gweithredu oherwydd wrth gydbwyso'r wybodaeth a rhoddwyd, nad oedd llên-ladrata, cydgynllwynio na chyflwyno aseiniadau lluosog wedi digwydd.
- Bod y Bwrdd yn rhoi cais am ganiatáu cyfnod goddefiad ar ran y dysgwr, gan er bod tystiolaeth glir o lên-ladrata / cydgynllwynio/ cyflwyno aseiniadau lluosog, oherwydd bod hefyd ffactorau esgusodol, byddai cosb yn amhriodol.
- Bod tystiolaeth glir o lên-ladrata / cydgynllwynio/ cyflwyno aseiniadau lluosog ac y dylai'r bwrdd weithredu un o'r cosbau canlynol (Canlyniad A i CH);
    - **A**: marcio cyfraniad y dysgwr yn unig i'r gwaith, neu mewn achos o gyflwyno aseiniadau lluosog, marcio'r rhan o'r gwaith sydd yn cydymffurfio gyda chanllawiau'r Athrofa (Mae'n bosib mai hyn fydd mwyaf priodol pan fo llên-ladrata / cydgynllwynio/ cyflwyno aseiniadau lluosog ddim ar raddfa fawr, neu hyn ydy'r achos cyntaf, neu fod y dysgwr yn y flwyddyn gyntaf, neu fod y Bwrdd yn derbyn ple lliniarol y dysgwr.
    - **B**: dyfarnu marc o 0 ar gyfer y gwaith (mae'n bosib y bydd hyn yn briodol lle fod y llên-ladrata / cydgynllwynio/ cyflwyno aseiniadau lluosog yn fwy helaeth, bod y gwaith yn gwneud cyfraniad sylweddol i'r modiwl/rhaglen yn ei gyfanrwydd neu ei fod yn ail achos o dramgwydd neu fod tystiolaeth glir o fod yn anonest) a chaniatáu i'r dysgwr i ail-eistedd / ailgyflwyno'r darn gwaith gyda'r marc wedi ei bennu ar y marc pasio. (o fewn cyfyngiadau ail-eistedd fel yr amlinellwyd yn y Rheoliadau Craidd ar gyfer rhaglenni

Common Awards).

- **C**: dyfarnu marc o 0 ar gyfer y modiwl cyfan y digwyddodd y llên-ladrata / cydgynllwynio/ cyflwyno aseiniadau lluosog (dyma'r gosb fwyaf difrifol sydd ar gael i Fwrdd yr Arholwyr). Bydd gofyn i'r dysgwr i ail-eistedd y modiwl cyfan gyda'r marc wedi'i bennu ar y marc pasio. (o fewn cyfyngiadau ail-eistedd fel yr amlinellwyd yn y Rheoliadau Craidd ar gyfer rhaglenni Common Awards). Dylai defnyddi'r gosb hwn mewn achosion difrifol iawn yn unig.
- **Ch**: bod lefel y camymddygiad yn fwy difrifol na'r esiamplau a rhoddwyd yn A-C, ac felly, dylai'r achos gael ei gyfeirio at Brifysgol Durham fel tramgwydd difrifol o dan reoliadau disgyblu'r Brifysgol. Yn yr achos hwn dylai'r panel llên-ladrata ddewis canlyniad academaidd o A-C uchod, a dylid cysylltu â'r tim Common Awards cyn gynted â phosib i gael cyngor ar gyfeirio'r achos o dan reoliadau disgyblu'r Brifysgol.

- Lle bo un o'r argymhellion uchod yn cael eu gweithredu, dylai adroddiad ysgrifenedig gan gynnwys y gwaith a gyflwynwyd gydag esboniad y dysgwr ac argymhelliad y Panel gael ei gyflwyno mewn cyfarfod Bwrdd Arholwyr i'w hystyried. Dylai'r Bwrdd ymgynghori a'r arholwyr allanol cyn gwneud penderfyniad am achosion yn cynnwys gwaith sydd wedi ei gyflwyno ar gyfer anrhydedd olaf. Dylid danfon yr adroddiad yn electronig i'r Tim Common Awards cyn gynted â phosib; bydd yr adroddiad yn cael ei drosglwyddo i'r Swyddog Cyswllt yn y Brifysgol berthnasol i'w adolygu.
- Ym mhob achos lle nad yw'r dysgwr ar lefel olaf eu rhaglen astudio, neu pan fo ganddynt ddarn o waith i'w gyflawni i'w asesu'n grynodol, bydd rhaid i aelod priodol o'r staff addysgu drefnu cyfarfod, mewn person yn ddelfrydol, i gynghori'r dysgwr ar sut i osgoi torri'r rheoliadau asesu yn y dyfodol. Bydd hysbysiad o ddyddiad ac amser y cyfarfod yn cael ei gadw yn ffeil ddysgu'r dysgwr.

9.3 Mae Athrofa Padarn Sant yn ystyried achosion o gamymddwyn academaidd sydd wedi eu profi, yn dramgwydd o dan God Ymddygiad yr Athrofa ac fe all olygu gweithredi Broses Disgyblu / Prose Gallu i Ymarfer yr Athrofa.

10. Gweithdrefn Apeliadau: Hawl i Apelio

Gall dysgwyr ofyn am gael adolygu'r penderfyniad a wnaed ar sail y canlynol **yn unig**:

10.1 I ddysgwyr a gofrestrwyd ym Mhrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant:

- Anghysondebau yn y modd y cynhaliwyd y weithdrefn ymarfer annheg, y mae ei natur yn peri amheuaeth resymol a fyddai'r un penderfyniad wedi ei wneud a/neu'r un gosb wedi'i defnyddio pe na fyddent wedi digwydd.
- Rhaid anfon apêl yn erbyn penderfyniad ar Ymarfer Annheg a/neu gosb Ymarfer Annheg i Swyddfa Academaidd ar Ffurflen Apêl Ymarfer Annheg y Brifysgol (Atodiad GA7) fel rheol ddim hwyrach na **15 diwrnod gwaith clir** ar ôl i hysbysiad swyddogol y penderfyniad a'r gosb gael ei wneud.

10.2 I ddysgwyr a gofrestrwyd ar raglenni a ddilyswyd gan Common Awards (Prifysgol Durham):

- Bod y penderfyniad ddim wedi ei gwneud yn unol â'r gweithdrefnau cywir fel nodwyd yn y polisi hwn.
- Bod amgylchiadau anffafriol oedd yn effeithio eich perfformiad a bod y rai a oedd yn gwneud y penderfyniad ddim yn ymwybodol o'r amgylchiadau anffafriol ar yr adeg waned y penderfyniad. Mae rhaid bod yna rheswm da pam fo'r amgylchiadau heb eu cyflwyno pan waned y penderfyniad.

11. Apêl i Gyrff Allanol: Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol

Dim ond ar ôl dilyn yr holl weithdrefnau apêl ac adolygu mewnol y gellir cyflwyno apêl am gŵyn academaidd i gorff allanol. Fel rheol dim ond os bydd Prifysgol heb ddilyn ei gweithdrefnau ei hun yn gywir neu heb ymdrin â'r gŵyn yn deg y gellir apelio yn erbyn penderfyniad terfynol y Brifysgol.

Gwneud Apêl i Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol:

Mae Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol Addysg Uwch (OIA) yn rhedeg cynllun annibynnol I adolygu cwynion myfyrwyr. Mae Athrofa Padarns ant yn aelod o'r

cynllun. Os ydych yn anfodlon gyda'r canlyniad eich achos mae'n bosib y gallwch ofyn I;r OIA I adolygu eich achos. Gallwch ddodo hyd I fwy o wybodaeth am sut I wneud cwyn I'r OIA, beth gallant ymchwilio,a beth na allant ymchwilio, a beth gallnt ei wneud I ddatrys y mater yn: **https://www.oiahe.org.uk/students/** .

Yn arferol bydd angen eich bod wedi cwblhau'r weithdrefn Apeliadau Academaidd cyn cyflwyno cwyn i'r OIA. Byddwn yn danfon llythyr atoch o'r enw "**Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau"** pan fyddwch wedi dod i ddiwedd ein prosesau a phan nad oes unrhyw gamau pellach gellir ei wneud yn fewnol. Os nad ydych eich achos wedi ei gynnal byddwn yn darparu Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau yn awtomatig. Os yw eich achos yn rhannol wedi ei gynnal gallwch ofyn am Lythyr Cwblhau Gweithdrefnau os ydych yn dymuno. Gallwch ddod o hyd i fwy i wybodaeth am y Llythyr fan hwn Cwblhau Gweithdrefnau a pryd gallwch ddisgwyl ei dderbyn yn: https://www.oiahe.org.uk/providers/completion-of-procedures-letters\

12. Cyfle Cyfartal

Rhoddir ystyriaeth ddiduedd i Gamymddwyn Academaidd. Mae'r Sefydliad yn ymdrechu yn unol â'i **Bolisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth** i sicrhau nad yw dysgwyr yn destun gwahaniaethu anghyfreithlon o dan ddarpariaethau Deddf Cydraddoldeb 2010. Credwn fod amrywiaeth yn gyfraniad cadarnhaol i'r profiad dysgu ym Mhadarn Sant.

13. Diogelu Data

13.1 Cedwir cofnodion o unrhyw ymchwiliadau i Gamymddwyn Academaidd yn unol â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data. Gweler y manylion ym **Mholisi Diogelu Data Padarn Sant**.

13.2 Yn unol â thelerau'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data, mae gan ddysgwyr hawl i gopi o'r holl ddata personol a gedwir gennym. Dylid cyflwyno pob cais i'r Cyfarwyddwr Gweithrediadau.

14. Cyfrifoldebau, Cymeradwyo Polisi ac Adolygu

14.1 Bydd y ddogfen hon yn ogystal â phob polisi arall, gweithdrefn a dogfennau cyfarwyddyd sy'n ymwneud â dysgwyr sy'n astudio ym Mhadarn Sant, ar gael i bawb, ac yn cael eu monitro'n rheolaidd a'u hadolygu a'u gwerthuso o bryd i'w gilydd.

14.2 Y Prifathro ac Arweinwyr Rhaglenni sy'n gyffredinol gyfrifol am y polisi Camymddwyn Academaidd, yn cynnwys ei gymeradwyo a'r adolygiad blynyddol.

15. Cyhoeddi'r Polisi

15.1 Gwelir y ddogfen hon ar wefan Athrofa Padarn Sant www.stpadarns.ac.uk ac ar Moodle yr athrofa.

15.2 Gwneir pob ymdrech i ymateb i unrhyw gais i ddarparu'r polisi hwn mewn fformat gwahanol.

15.3 Bydd y polisi hwn yn rhan o weithdrefn sefydlu staff a dysgwyr.

Atodiad 1- Ffurflen Adrodd Ymarfer Academaidd Gwael / Camymddwyn Academaidd

Enw Dysgwr:	**Rhif Dysgwr.**
Modiwl **Teitl y gwaith**	
Natur y camymddwyn (ticiwch)	☐ Ymarfer Academaidd Gwael ☐ Llên-ladrad ☐ Arall (nodwch)
Y tiwtor a nododd y camymddwyn:	Enw: Dyddiad:

Y CAMAU A GYMERWYD yn achos Ymarfer Academaidd Gwael: 1. A yw'r dysgwr wedi cyfaddef i'r drosedd? 2. Ai dyma drosedd gyntaf y dysgwr? 3. A roddwyd rhybudd anffurfiol i'r dysgwr? 4. A roddwyd cyfarwyddyd i'r dysgwr ar sut i osgoi'r ymarfer yn y dyfodol?	
CAMAU A GYMERWYD yn achos Camymddwyn Academaidd: 1 Ydy Arweinydd y Rhaglen yn ystyried bod achos i'w ateb? 2 Ydy Arweinydd y Rhaglen wedi hysbysu'r person priodol yn y Brifysgol? 3 Ydy'r aseiniad a'r adroddiad wedi'u cadw yn ffeil y dysgwr?	

CANLYNIAD YMCHWILIAD Y BRIFYSGOL	
	Sylwadau:

Y GOSB A DDYFARNWYD	
LLOFNODWYD (Llofnod gydag enw mewn priflythrennau i ddilyn):	**DYDDIAD:**
Arweinydd y Rhaglen (gorfodol):	
Arweinydd y Modiwl (gorfodol):	
Cofrestrydd (ar ôl cwblhau'r ymchwiliad a'r apêl os yw'n briodol)	